# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org

Gwaelod-y-Garth

Tymor y Nadolig 2009

Sêr y dyfodol! "Nadolig.net" – y ddrama Nadolig fore Sul Rhagfyr 20, 2009. Diolch i bawb am eu gwaith.



**Cofiwch am Y Plygain!**

**Pnawn Sul**
**Ionawr 10**
**4.30**

**Dewch i ganu!**
**Ffurfiwch barti**





(uchod) Carolwyr Bethlehem fu'n canu o dŷ i dŷ yng Ngwaelod-y-Garth ar ôl y gwasanaeth Naw Llith a Charol (chwith). Casglwyd at ein helusen am eleni, Cymdeithas Motor Neurone (er cof am Idris). Gyda llaw, bydd Rhys Dafis yn dringo mynydd Jbel Toubkal ym Morocco ar Sul y Pasg at yr un elusen – bydd ganddo ffurflen noddi cyn hir!

❊ ❊ ❊ ❊ ❊ ❊ ❊ ❊ ❊

## *Neges gan ein gweinidog:*

*Ystyr y Nadolig yw bod dyfodiad Crist yn troi ein tristwch yn llawenydd. A phan welwn ni mai felly mae hi, mae pleserau'r byd yn colli eu hapêl. Bryd hyn, dyna gysur yw gwybod "ac ni all neb ddwyn eich llawenydd oddi arnoch". Nadolig Llawen i chi. A boed i'r llawenydd afieithus hwnnw ddatod cwlwm ein crefydda "gweddus."*

**R. Alun Evans**

❊ ❊ ❊



Rhai o aelodau Clwb Cinio'r Cwrdd Merched yn eu gwledd Nadolig yng Ngwaelod-y-Garth.

**MAE RHIFYN LLIW LLAWN O'R BWLETIN HWN AR EIN GWEFAN.**

## Cydymdeimlwn â'r canlynol:

- Byron Edwards (Creigiau)

- wedi colli ei fam.

- Carol Davies Jones (Yr Eglwys Newydd) – wedi colli ei hewythr.

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

### *Cyfeiriadau:*

***Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,***
Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2BW
***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net

**Ysgrifennydd Bethlehem: Rhys Dafis**
**Ffôn:** 029 20 89 13 60 ***e-bost:***

# *Suliau 2010*

**Oni nodir yn wahanol - gwasanaethau am 10.30**

**IONAWR**
**3** Emlyn Davies Pentyrch
**10** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
Plygain am 4:30pm
**17** Gwasanaeth y Merched
**24** Y Parchg. R. Alun Evans
**31** Gwasanaeth Ardal,
*Pentyrch*

**CHWEFROR**
**7** Y Parchg. Gareth Reynolds
**14** Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
**21** Y Parchg. Gwilym Dafydd
**28** Y Parchg. R. Alun Evans
*(Gwasanaeth Gwyl Ddewi)*
*[Blas o Gymru yn y festri wedyn]*

**MAWRTH**
**7** Y Parchg. Ieuan Davies
**14** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**21** Gwasanaeth Ardal,
*Gogledd a Dwyrain, Caerdydd*
**28** Y Parchg. R. Alun Evans

**EBRILL**
**2** - Gwasanaeth y Groglith
**4** (Sul y Pasg) Oedfa yng ngofal yr aelodau
**11** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**18** Y Parchg. Hywel W. Richards
25 Y Parchg. R. Alun Evans

**MAI**
**2** Y Parchg. Haydn Thomas
**9** Y Parchg. R. Alun Evans
(Cymun a derbyn aelodau ifanc)
**16** Sul Cymorth Cristnogol
**23** Mr Eifion Hopwood
**30** Y Parchg. Lona Roberts

**MEHEFIN**
**6** Gwasanaeth Ardal,
*Gwaelod y Garth, Ffynnon Taf, Tongwynlais*
**13** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**20** Dr Eirian Dafydd
**27** Y Parchg. R. Alun Evans

**GORFFENNAF**
**4** Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
**11** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**18** Sul Cyfundeb
**25** Y Parchg. R. Alun Evans

**AWST**
**1** Efail Isaf
**8** Bethlehem
**15** Efail Isaf
**22** Bethlehem
**29** Efail Isaf

**MEDI**
**5** Miss Eirwen Richards
**12** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**19** Y Parchg. R. Allan Pickard
**26** Y Parchg. R. Alun Evans

**HYDREF**
**3** Y Parch Jeff Williams
**10** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**17** Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
**24** Y Parchg. R. Alun Evans
**31** Y Parchg. Dafydd Owen

**TACHWEDD**
**7** Gwasanaeth Ardal,
*Radur.*
**14** Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
**21** Y Parchg. John Gwilym Jones
**28** Y Parchg. R. Alun Evans

**RHAGFYR**
**5** Ymweld â Chartre Henoed yn y bore.
(hwyr) *Naw Llith a Charol*
**12** Y Parchg. R. Alun Evans Cymun am 5yh
**19** Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
**25** [am 10.00]: Gwasanaeth Bore Nadolig
**26** Y Parchg. R. Alun Evans

~~~~~

## Derbyn Aelodau Ifanc

Mae'n fwriad gan y Gweinidog dderbyn aelodau ar Dydd Sul, Mai 9fed, 2010. Cysylltwch â'r Gweinidog er mwyn i chi allu ymuno â'r rhaglen baratoi.

## *Wedi gwella*

Gwych gweld Mary Slade yn ôl yn ein plith ar ôl cyfnod o waeledd.

## Welsoch chi gopi o Newyddion Bethlehem Hydref 2009 ar ein gwefan?

**Mae llawer rhagor o wybodaeth nag sy'n y bwletin hwn, i'w gael ar:**

**www.gwe-bethlehem.org**

Gawsoch chi gopi electronig o'r bwletin diwethaf drwy e-bost? Anfonwch eich cyfeiriad e-bost at Rhys Dafis [**rhysdafis@aim.com**] ac mi wnawn yn siŵr y cewch chi gopi o bob rhifyn, le bynnag rydych chi ar y pryd.

**Croeso i:**

- Awen Mair – wyres newydd Dafydd a Rhian Huws, Ffwrnes Blwm a llongyfarchion i Gwenan a Huw - mae Megan wrth ei bodd hefo'i chwaer fach! [Hyfryd clywed am ymweliad taid a nain â Llundain gan gynnwys picio i rif 10 Stryd Downing! ]
- Gwen – wyres newydd John a Marian Evans, Radur – a merch i Sara a Rhodri Gibson.
- Wil Aneurin a Kitty Mair Elisabeth – wyr a wyres i Arwel a Margaret Ellis Owen, Creigiau – mab Catrin a Steve a merch i Rebecca a Tomos.
- Harri – gor-wyr Cerith ac Eirlys Davies, Pentyrch.
~~~~~